**Gwybodaeth i Gleifion**

# Derbyn neu ystyried triniaeth gydag Ymarferwyr Gofal Iechyd eraill

## Y Gwasanaeth Ffisiotherapi

Diolch i chi am roi gwybod i ni eich bod yn derbyn neu'n ystyried cael triniaeth ychwanegol ar gyfer yr un cyflwr ag y mae ffisiotherapydd y Bwrdd Iechyd wedi eich gweld heddiw. Mae'r wybodaeth hon i'ch helpu i benderfynu ar ba lwybr triniaeth i'w ddilyn.

Yn y mwyafrif o achosion, byddan nhw'n dweud wrthych am ddewis un cwrs o driniaeth ar y tro. Mae hyn i helpu pob ymarferydd fesur effeithlonrwydd eu triniaethau ac am resymau diogelwch gan na allwn ni gymryd unrhyw gyfrifoldeb am driniaeth sy'n cael ei chynnig gan ymarferydd arall - yn arbennig unrhyw effeithiau a all gael ar eich cyflwr neu'r driniaeth a gynigir gennym ni.

Os byddwch chi'n penderfynu parhau gyda'ch triniaeth yn rhywle arall, byddem yn gofyn i chi wirio bod yr ymarferydd rydych chi'n ei ddewis wedi cymhwyso'n llwyr ac wedi cofrestru gyda'i gyngor/ chyngor neu gorff rheoli. Rydym wedi darparu rhai gwefannau isod i'ch helpu gyda hyn.

Dylai pob ffisiotherapydd (GIG a Phreifat) fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gweithwyr Proffesiynol Iechyd a Gofal. Mae'n bosibl y byddwch chi am wirio bod eich ffisiotherapydd ar y gofrestr yn: http://www.hcpc-uk.org

Dylai ciropractegwyr fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Ciropracteg Cyffredinol.
I wirio eu bod wedi cofrestru, gallwch weld y gofrestr yn: http://www.gcc-uk.org

Dylai osteopathiaid fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Osteopatheg Cyffredinol.
I wirio eu bod wedi cofrestru gallwch weld y gofrestr yn:
http://www.osteopathy.org.uk/

I gael gwybodaeth am therapyddion Cyflenwol, gallwch ymweld â Chyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol yn: http://www.cnhc.org.uk

Os ydych chi'n ystyried derbyn eich gofal gan ymarferydd arall oherwydd bod amseroedd yr apwyntiadau'n anghyfleus neu eich bod yn anhapus gyda'r driniaeth a gawsoch yn yr Adran Ffisiotherapi, hoffem gael gwybod. Cofiwch ofyn am gael siarad gydag uwch aelod o staff yn yr adran lle'r ydych chi wedi bod yn cael y driniaeth. Bydd y person hwnnw/ honno yn ymchwilio i'ch pryderon. Neu, gallwch gysylltu ag:

Sarah Carrington, Pennaeth Ffisiotherapi, e-bost: Sarah.Carrington@wales.nhs.uk

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English**